

Y GWERTH BWYD A DIOD O GYMRU

EXECUTIVE
REPORT



BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES




ADRODDIAD GWEITHREDOL - GWERTH BWYD A DIOD O GYMRU

Ym Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Gweithredu Strategol, ‘Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020’.

Mae dadansoddiad economaidd i wella gwaelodlin data'r diwydiant wedi amlinellu'r cyfraniad sylweddol mae'r sector amaeth-bwyd yn ei wneud i economi Cymru.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ffaith fod diwydiant Cymru yn parhau i fanteisio ar dreftadaeth a tharddiad bwyd, llwybrau newydd i'r farchnad a chyfleoedd i dyfu trwy allforio.

Mae angen i'r diwydiant fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, sgiliau, gallu newydd, a marchnata i greu hyd at 7,000 o swyddi yn economi Cymru erbyn 2020.




Y SECTOR BLAENORIAETH BWYD A DIOD

Mae cyswllt cryf rhwng amgylchedd naturiol Cymru, ei hinsawdd a'r bwyd gaiff ei gynhyrchu. Mae gan gynhyrchu cynradd gyswllt clos â chynhyrchu bwyd a diod.

Mae is-sectorau megis cynnyrch llaethdy, cig, diodydd, garddwriaeth a bwyd môr yn amlinellu hyn. Gan gydnabod pwysigrwydd y sector, mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bwyd a diod fel 'sector blaenoriaeth' (mae'r sector

blaenoriaeth yn cynnwys cynhyrchu cynradd a chynhyrchu bwyd a diod yn unig).


Mae'r sector cynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru wedi adeiladu ar dreftadaeth gadarn ac wedi ymestyn i farchnadoedd newydd trwy arloesi mewn datblygu a marchnata cynnyrch. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio â'r diwydiant, wedi gosod targed i sicrhau twf o £7bn mewn trosiant yn y sector blaenoriaeth erbyn 2020.



ADWERTHU BWYD A DIOD


Mae marchnad adwerthu bwyd a diod Cymru yn dal **£5.5bn o wariant defnyddwyr, gan gyflogi 69,600 o bobl yng Nghymru, nifer mewn swyddi rhan amser. Mae'n cyfrannu Gwerth Ychwanegol Crynswth o £838m i economi Cymru.**

Mae thema Gymreig gref i'w gweld mewn nifer o gynhyrchion, yn cynnwys cynnyrch becws, llaethdy, cig, diodydd a llysiau. Mae'r 25 brand Cymreig uchaf yn werth £128m ym Mhrydain yn 2015 a thra bo gwerthiant ym Mhrydain yn uwch na 2014, mae gostyngiad o 6% wedi bod mewn gwerthiant yng Nghymru. Tra bo cyfanswm y farchnad cynnyrch wedi brandio o fewn sector adwerthu Cymru yn werth £3bn, mae cyfle sylweddol i Gymru wella ei pherfformiad yma.



FOODSERVICE

Amcangyfrifir fod gwariant gwasanaeth bwyd yng Nghymru yn **£2.2bn yn 2015, sy'n 4.5% o ffigwr Prydain ac yn golygu 69,300 o swyddi.** Dyma un o sectorau cyntaf yr economi i ddangos adferiad economaidd, yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2015, cafwyd twf o 5.1% yn y sector; sy'n sylweddol uwch na Phrydain, sydd ar 1.5%.



Dros Brydain, mae twf yn cael ei yrru gan gynnydd brandiau llai a'r prif frandiau, gyda rôl tymor hir y safleoedd annibynnol yn dirywio. Ffactor allweddol yn hyn yw defnyddwyr yn chwilio am werth - gyda chynigion arbennig yn chwarae rhan allweddol wrth ddylanwadu ar ddewis defnyddwyr ac yn gyrru twf. Mae Cymru wedi gweld twf mewn byrbrydau a chinio, tra bo Prydain wedi gweld twf yn sgil rhagor o ymweliadau pryd nos.

Gyda'r twf mewn bwyta anffurfiol, bwyd rhyngwladol a bwyd stryd, mae'n debygol y bydd dylanwad cynyddol ar wasanaeth bwyd Cymru gan frandiau 'niche' a'r prif frandiau.

Mae pwysau cystadleuol sylweddol gan y cwmnïau disgownt yn cael effaith ar y farchnad adwerthu. Wedi gostyngiad mewn gwariant gan ddefnyddwyr yn ystod y dirwasgiad, mae defnyddwyr wedi parhau yn gynnwl yn eu gwariant ar fwyd a diod wrth i'r amodau economaidd wella. Mae'r twf bychan mewn gwerthiant a gostyngiad yng ngwerth y gwerthiant yn sgil datchwyddiant wedi effeithio ar faint yr elw.

Mae'r pwyslais yn sgil hynny ar bris ac arbedion effeithlonwydd wedi golygu fod adwerthwyr lluosog yn lleihau'r amrediad o gynnyrch maent yn ei werthu, i symud o'r farchnad ganol, sydd dan bwysau. Mae cynnyrch arloesol gyda nodweddion cryf sy'n sicrhau teyrngarwch defnyddwyr yn allweddol.

Mae cynhyrchwyr Cymru wedi arddangos eu gallu i gyflenwi marchnad 'brand yr adwerthwr'. Heb gael y sylw dyledus yn aml, mae'r cynnyrch yn llawer mwy amlwg ym marchnad y DG nag yn Ewrop, gyda 50% o'r cynnyrch yn cael ei werthu dan frand yr adwerthwr, a bron i 96% o gynnyrch ffres, cig a dofnod.

Mae adeiladu ar arbenigedd cynhyrchu bwyd a diod Cymru a gyrru twf pellwch wrth gyflenwi ar gyfer brand yr adwerthwr yn gyfle gwirioneddol i Gymru.

TUEDDIADAU DEFNYDDWYR BWYD A DIOD

Mae'r farchnad defnyddwyr yn esblygu'n gyflym ac mae angen i fusnesau ymateb i barhau'n gystadleuol.

Mae ffactorau megis yr adferiad economaidd, poblogaeth sy'n heneiddio, iechyd, cyfryngau cymdeithasol, twf cenhedlaeth 'Z' (sydd wedi'u geni ers 2000), a globaleiddio yn cael effaith sylweddol ar y farchnad defnyddwyr. Er enghraifft, mae'r farchnad cynnyrch sydd heb rai cynhwysion penodol yn cynyddu 19% bob blwyddyn, sy'n amlinellu cyfle mewn marchnad sy'n tyfu'n gyflym.

Mae cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu aml-blatfform yn caniatáu rhagor o gyfathrebu â defnyddwyr - ond mae cael eich clywed uwchben y dorf yn gynyddol anodd. Mae cenhedlaeth Z yn disgwyl i frandiau gyfathrebu â hwy, ac mae rôl personoli o fewn y diwydiant bwyd yn arwydd o hynny.


Mae teyrngarwch ac ymddiriedaeth defnyddwyr yn lleihau, gyda defnyddwyr yn hapusach i amrywio pa frandiau, adwerthwyr a bwyta i'w defnyddio, gan chwilio am y cynigion gorau.

Mae'r farchnad yn cynnig cyfleoedd cyffrous i arloesi gyda chynnyrch newydd a negeseuon marchnata yn seiliedig ar darddiad a gallu i olrhain – meysydd y mae Cymru mewn sefyllfa dda i adeiladu arnynt.

ALLFORIO BWYD A DIOD

Roedd allforion Bwyd a Diod gan fusnesau Cymru sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn werth £302m yn 2014, tua 2% o ffigwr Prydain. Er nad yw'r data'n cynnwys yr holl allforion, mae hyn yn is na chyfraniad Cymru tuag at gyfanswm allforion Prydain, sy'n 5%. Roedd allforion cynnyrch llaethdy Cymru'n cyfrif am 17% o gyfanswm allforion cynnyrch llaethdy Prydain. Caiff llawer o laeth Cymru ei brosesu'n gaws cheddar, marchnad fyd-eang sylweddol. Y tri phrif grŵp allforion arall oedd cynnyrch grawnfwyd, cig a chynnyrch cig a physgod a physgod cragen, gyda gwerth allforio cyfun o £112m.

Dim ond 2% o gyfanswm gwerth allforion Cymru a ddaw o fwyd, o'i gymharu â 4% ym Mhrydain a 6% yn yr Alban. O gynnwys diodydd, mae'r Alban yn neidio i 30% sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Wisgi.




CASGLIAD

Gyda tharged o sicrhau cynnydd o 30% mewn trosiant erbyn 2020, mae gan Gymru botensial i dyfu, a marchnad defnyddwyr amrywiol yn y DG a thramor i werthu iddi.



O ystyried maint Cymru a maint y cyflenwad o ddeunydd crai, mae angen ychwanegu cymaint o werth ag sy'n bosibl i fwyd a diod o Gymru ac i wahaniaethu oddi wrth gystadleuwyr.

Mae tarddiad cynnyrch Cymru a'i enw da yn rhoi platform cadarn i sicrhau twf. Bydd twf mewn cynhyrchu bwyd a diod hefyd o fudd i gynhyrchu cynradd yng Nghymru, ac i ardaloedd gwledig lle mae'r sector bwyd a diod yn fwy amlwg na sectorau eraill.



Mae angen:

- Cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, sy'n isel
- Buddsoddi mewn sgiliau i gau'r bylchau a ddynodwyd
- Buddsoddi mewn cyfleusterau i gynyddu cynhyrchiant
- Marchnata mewn modd arloesol i roi sylw clir i'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig

Ar lefel defnyddwyr, mae potensial i gynyddu perfformiad adwerthu brandiau Cymreig yng Nghymru, ynghyd â'r farchnad allforio. Mae angen datblygu cynnyrch sy'n osgoi'r 'canol cyfyng' a'r peryg o beidio cael eu stocio gan adwerthwyr lluosog. Mae cyflenwi brandiau'r arwerthwyr yn llwybr pwysig i'w dargedu os daw negeseuon am darddiad gyda hynny.

Gydag ymroddiad a gwaith called, mae cyfle gwirioneddol i dyfu gwerth y diwydiant mewn modd cynaliadwy erbyn 2020 - gan ddod yn genedl sy'n arwain ar fwyd a diod.